MAE'R DDOGFEN HON HEFYD AR GAEL YN SAESNEG

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys

## Panel Craffu
## Ymarfer Hap-samplu

## Athreuliad Dioddefwyr Cam-drin Domestig

## Canfyddiadau ac Adborth Aelodau'r Panel

**Tachwedd 2023**

## Cynnwys

**1.0 Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg ..................................2**

**2.0 Adolygiad o Achosion Cam-drin Domestig..................................2**

**2.1 Cyswllt cychwynnol â'r heddlu...............................................2**

**2.2 Cyn-cyhuddo........................................................................4**

**2.3 Ôl-cyhuddo .........................................................................5**

**3.0 Sylwadau ac Arsylwadau ar gyfer Ymateb yr Heddlu ..................5**

**4.0 Gweithdy Aml-Asiantaeth .......................................................6**

## 1.0 Trosolwg, Cefndir, Pwrpas a Methodoleg

Mae'r llawlyfr Sicrhau Ansawdd, sydd ar gael ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh), yn datgan cefndir a phwrpas y Panel, ynghyd â sut y cynhelir yr hap-samplu, a'r hyn y gofynnir i'r Panel ei ystyried.

Ar 22 Tachwedd 2023, cyfarfu aelodau o'r Panel Sicrhau Ansawdd ym Mhencadlys Heddlu Dyfed-Powys am sesiwn eithriadol fel rhan o ddarn ehangach o waith a gyflawnwyd gan **Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu** (SCHTh).

Penodwyd SCHTh fel y sefydliad arweiniol i gydgysylltu prosiect a orchmynnwyd o fewn Cynllun Cyflawni 2023/24 Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys: Prosiect sy'n ystyried athreuliad dioddefwyr cam-drin domestig; pam mae dioddefwyr cam-drin domestig yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl o ymchwiliadau.

Ar 28 Tachwedd 2023, cynhaliodd SCHTh Weithdy aml-asiantaeth, yn gwahodd partneriaid cyfiawnder troseddol a chynrychiolwyr gwasanaethau cymorth i drafod athreuliad dioddefwyr cam-drin domestig. Nod y Gweithdy oedd nodi'r materion sy'n arwain at athreuliad dioddefwyr, yn ogystal â pha gamau y gallai sefydliadau mynychwyr eu cymryd i leihau cyfraddau athreuliad ar draws ardal Dyfed-Powys.

Er mwyn dod â llais annibynnol i'r Gweithdy aml-asiantaeth, gofynnodd SCHTh i aelodau'r Panel Sicrwydd Ansawdd adolygu achosion diweddar o gam-drin domestig lle'r oedd y dioddefwyr wedi tynnu eu cefnogaeth i ymchwiliad yn ôl. Yna cafodd eu canfyddiadau eu cydblethu mewn trafodaethau yn y Gweithdy.

Gwnaeth Ditectif Brif Arolygydd sy'n arwain ar gam-drin domestig ar gyfer Heddlu Dyfed-Powys (HDP) gwrdd ag aelod o'r Panel cyn ei adolygiad achos, i roi trosolwg o gam-drin domestig ac athreuliad ar draws ardal yr Heddlu. Bu aelodau'r panel, ynghyd â staff SCHTh, yn ystyried 15 achos o gam-drin domestig, lle'r oedd y dioddefwyr wedi tynnu eu cefnogaeth yn ôl naill ai yn:

1. y cyswllt cychwynnol â'r heddlu,
2. yn ystod yr ymchwiliad (cyn cyhuddo), neu
3. ar ôl cyhuddo.

Yn eu hadolygiad, gofynnwyd i aelodau'r Panel ganolbwyntio ar sail resymegol y dioddefwyr dros dynnu eu cefnogaeth yn ôl. Gofynnwyd iddynt hefyd rannu eu barn ynghylch a allai'r asiantaethau Cyfiawnder Troseddol dan sylw fod wedi gwneud unrhyw beth pellach i atal athreuliad dioddefwyr.

## 2.0 Adolygiad o Achosion Cam-drin Domestig

Manylir ar ganfyddiadau aelodau'r panel isod o dan y tri cham a restrir uchod, lle gallai athreuliad dioddefwyr ddigwydd.

### 2.1 Cyswllt cychwynnol â'r heddlu

Nododd aelodau'r panel y rhesymeg ganlynol yn y ffeiliau achos dros ddioddefwyr yn tynnu'n ôl ar gam y cyswllt cyntaf â'r heddlu:

- Gwrthod cefnogi ymchwiliad o'r cychwyn cyntaf gan fod y cam-drin yn groes i'w gymeriad ac nad oeddent yn ofni'r troseddwr honedig.
- Gwrthod cyswllt â’r heddlu, h.y., ni wnaeth y dioddefwr ateb galwadau nac ymateb i negeseuon gan yr heddlu.
- Yr effaith y gallai ymchwiliad ei gael ar eu plant.
- Yn gofyn i'r digwyddiad gael ei gofnodi fel bod cofnod ohono, ond nad oeddent yn dymuno i’r mater gael ei ymchwilio ymhellach.
- Dioddefwyr ddim yn darparu'r dystiolaeth y gofynnwyd amdano gan yr heddlu.

Nododd aelodau’r panel yr agweddau cadarnhaol yn yr achosion a adolygwyd:
- Roedd yr ymchwiliadau'n fanwl iawn, gyda thystiolaeth o swyddogion yn ystyried ymchwiliadau a arweiniwyd gan dystiolaeth.
- Roedd asiantaethau partner perthnasol megis Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig yn gysylltiedig.
- Trafodwyd atgyfeiriadau i wasanaethau megis Gwasanaeth Cyffuriau ac Alcohol Dyfed (GCAD) gyda rhai dioddefwyr, er bod y dioddefwr a'r cyflawnwr wedi gwrthod hyn mewn un achos.
- Rhoddwyd cyngor ar ddiogelu yn y rhan fwyaf o achosion, gyda llawer o wybodaeth yn cael ei rhannu wyneb yn wyneb, yn ystod galwadau ffôn, a thrwy e-bost.

I ddechrau, nodwyd bod y pwynt olaf yn gadarnhaol; er nad oedd y dioddefwyr yn dymuno bwrw ymlaen â’r ymchwiliad, cawsant lawer o wybodaeth am wasanaethau cymorth, diogelu a chynlluniau diogelwch. Fodd bynnag, holodd aelodau'r Panel wedyn a allai'r cyfoeth hwn o wybodaeth lethu'r dioddefwyr a'u gwthio tuag at dynnu eu cefnogaeth yn ôl. Roeddent yn cwestiynu safbwynt yr Heddlu ar ddarparu gwybodaeth.

Ar gyfer y rhan fwyaf o achosion a adolygwyd, cytunwyd nad oedd dim byd pellach y gallai’r asiantaethau cyfiawnder troseddol dan sylw fod wedi’i wneud i gael y dioddefwr i gefnogi ymchwiliad, oherwydd nad oedd y dioddefwyr yn mynd ar drywydd y gŵyn am resymau personol. Fodd bynnag, cynigiwyd nifer fach o awgrymiadau:
- Mewn achos lle gwrthododd y dioddefwr gefnogi ymchwiliad neu i ddarparu ei fanylion personol/cyswllt, nodwyd yn y cofnod ymholiadau ar-lein bod y dioddefwr yn agored i niwed ac wedi bod yn ddioddefwr cam-drin domestig yn y gorffennol. Awgrymodd aelodau'r panel y dylai'r dioddefwr hwnnw fod wedi cael gwybodaeth am wasanaethau cymorth ac â phwy i gysylltu pe bai'n profi cam-drin domestig eto.
- Mewn achos lle nodwyd bod yfed alcohol y cyflawnwr yn ffactor ysbeidiol o gam-drin, nid oedd unrhyw dystiolaeth yn y cofnod ymholiadau ar-lein o ystyried atgyfeiriad i GCAD neu raglen debyg. Pwysleisiodd un aelod o'r Panel mai *“newid ymddygiad y cyflawnwr yw’r peth pwysicaf”*.
- Tynnodd rhai dioddefwyr yn ôl oherwydd yr effaith y gallai ymchwiliad ei gael ar eu plant. Awgrymodd aelodau’r panel y gallai darparu manylion i ddioddefwyr ynghylch sut y gallai ymchwiliad wella’r sefyllfa gartref, er

enghraifft trwy raglenni adsefydlu sy'n canolbwyntio ar ymddygiad cyflawnwr, annog dioddefwyr i gefnogi ymchwiliad. Nodwyd efallai nad oes digon o wybodaeth am y rhaglenni hyn yn cael ei rhannu â dioddefwyr cam-drin domestig yn y cyfnod cynnar hwn.
- Mewn un achos nodwyd methiant wrth gymhwyso Cyfraith Claire. Holodd aelodau'r panel a fyddai'r dioddefwr wedi tynnu'n ôl pe bai hanes troseddu tebyg y sawl a ddrwgdybir wedi'i ddatgelu.

## 2.2 Cyn-cyhuddo

Nododd aelodau'r panel y rhesymeg ganlynol dros athreuliad yn ystod ymchwiliad cyn cyhuddo'r troseddwr honedig:
- Tynnodd tri o'r pum dioddefwr yn ôl oherwydd yr effaith y gallai canlyniad treial/euogfarn ei chael ar fywyd teuluol. Mewn un achos er enghraifft, tynnodd y dioddefwr gefnogaeth yn ôl gan nad oedd am effeithio ar hawliau ymweld y troseddwr honedig â'i blant o berthynas flaenorol.
- Mewn achos arall, roedd gan y dioddefwr a'r troseddwr honedig ganser ill dau, ac roedd y dioddefwr yn dymuno canolbwyntio ar ei iechyd, gan nodi ei bod yn dibynnu'n helaeth ar y troseddwr honedig am gymorth corfforol.
- Yn y pumed achos, nid oedd yn amlwg i'r aelod o'r Panel a oedd yn adolygu pam nad oedd y dioddefwr eisiau bwrw ymlaen â'r ymchwiliad. Mae'r cofnod ymholiad ar-lein yn nodi bod fideo camera corff y swyddog a ymatebodd yn recordio yn ystod y drafodaeth â'r dioddefwr, ond nid oedd gan y Panel fynediad i'r fideo yn ystod eu hadolygiad o'r achos.

Nododd aelodau'r panel yr agweddau cadarnhaol ar yr achosion a adolygwyd:
- Rhoddwyd cyngor ar ddiogelu ac roedd asiantaethau partner perthnasol yn cymryd rhan.
- Cynhaliwyd ymholiadau o dŷ i dŷ a cheisiwyd tystiolaeth wrth ystyried erlyniad ar sail tystiolaeth.

O ran yr hyn y gallai'r asiantaethau cyfiawnder troseddol dan sylw fod wedi'i wneud i gael y dioddefwr i gefnogi ymchwiliad, unwaith eto, ar gyfer y rhan fwyaf o'r achosion hyn, cytunwyd nad oedd dim byd pellach y gallent fod wedi'i wneud. Fodd bynnag, rhannwyd ychydig o syniadau:
- Mewn un achos, nodwyd camddefnyddio sylweddau y troseddwr honedig fel ffactor achosol, ac roedd aelodau'r Panel yn ansicr a oedd atgyfeiriad i wasanaethau arbenigol wedi'i drafod.
- Yn yr achos a grybwyllwyd uchod lle tynnodd y dioddefwr gefnogaeth yn ôl er mwyn peidio ag effeithio ar hawl ymweld y troseddwr honedig, amlygwyd ei bod yn datgan yn benodol yn natganiad y dioddefwr nad oedd wedi cael ei gorfodi i dynnu ei datganiad yn ôl. Roedd yr aelod o'r Panel yn ansicr a oedd hyn yn rhywbeth y byddai'r swyddog a gymerodd ei datganiad wedi gofyn yn benodol i'r dioddefwr neu a oedd wedi ysgrifennu hyn o'i gwirfodd. Os mai'r rheswm olaf o'r ddau yna gofynnodd yr aelod o'r Panel a fyddai hyn wedi cael ei ymchwilio ymhellach, oherwydd dywedodd y dioddefwr ei bod wedi gweld y troseddwr honedig ers y digwyddiad dan sylw.

## 2.3 Ôl-cyhuddo

Nododd aelodau'r panel y rhesymeg a ganlyn dros athreuliad ar ôl cyhuddo'r cyflawnwr:

- Roedd y dioddefwyr yn dymuno ailafael yn eu perthynas â'r cyflawnwr. Er enghraifft, mewn un achos, ar ôl 25 mlynedd mewn perthynas gamdriniol, roedd y dioddefwr eisiau i'r troseddwr honedig ddod adref a thynnodd ei chefnogaeth i'r ymchwiliad yn ôl. Mewn achos arall, lle'r oedd y cyflawnwr wedi torri ei fechnïaeth i ddweud wrth y dioddefwr am ollwng yr achos, roedd y cyflawnwr yn fodlon cael cymorth iechyd meddwl ac roedd y dioddefwr eisiau ei helpu drwy hynny.
- Ni welwyd tystiolaeth o'r sail resymegol dros ddau ddioddefwr yn tynnu eu cefnogaeth yn ôl yn y cofnod ymholiad ar-lein a ystyriwyd. Yn un o'r achosion hyn, yn syml nid ymunodd y dioddefwr â'r cysylltiad byw â'r treial llys a drefnwyd gan y Gwasanaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Drais Domestig.

Nododd aelodau'r panel yr agweddau cadarnhaol yn yr achosion a adolygwyd:

- Roedd tystiolaeth o gyngor diogelu helaeth yn y cofnodion ymholiadau ar-lein lle'r oedd y ddau ddioddefwr yn dymuno ailafael yn eu perthnasoedd.

Ar gyfer pob un o'r achosion hyn, ni allai aelodau'r Panel awgrymu unrhyw gamau y gallai'r asiantaethau cyfiawnder troseddol dan sylw fod wedi'u cymryd i gynnal cymorth i'r dioddefwyr.

## 3.0 Sylwadau ac Arsylwadau ar gyfer Ymateb yr Heddlu

| Arsylwadau | Ymateb yr Heddlu |
|---|---|
| Rhoddwyd cyngor diogelu yn y rhan fwyaf o achosion y 'cyswllt cyntaf â'r heddlu': rhannwyd llawer o wybodaeth wyneb yn wyneb, yn ystod galwadau ffôn, a thrwy e-bost.<br>Ar y cychwyn, nodwyd bod hyn yn gadarnhaol; er nad oedd y dioddefwyr yn dymuno mynd ar drywydd yr ymchwiliad, cawsant lawer o wybodaeth am wasanaethau cymorth, diogelu a chynlluniau diogelwch.<br>Fodd bynnag, holodd aelodau'r Panel wedyn a allai'r cyfoeth hwn o wybodaeth lethu'r dioddefwyr a'u gwthio tuag at dynnu eu cefnogaeth yn ôl.<br>Roeddent yn cwestiynu safbwynt yr Heddlu ar ddarparu gwybodaeth. | Bydd camau gweithredu a nodwyd yn y Gweithdy Athreuliad Cam-drin Domestig aml-asiantaeth yn helpu i sicrhau bod y wybodaeth a ddarperir i ddioddefwyr yn yr ymateb cychwynnol yn gywir ac yn addysgiadol.<br><br>Dywedodd asiantaethau cymorth i ddioddefwyr sy'n cynrychioli dioddefwyr yn y gweithdy, er y gallai'r wybodaeth gael ei gweld fel gorlwyth, mae angen y wybodaeth ar ddioddefwyr i ddychwelyd ati yn eu hamser eu hunain ac felly mae angen ei darparu o'r cychwyn cyntaf. |
| Awgrymodd aelodau'r panel y byddai darparu manylion i ddioddefwyr | Mae Ditectif Arolygydd o Ganolbwynt Diogelu'r Cyhoedd yr Heddlu yn cwrdd |

| | |
|---|---|
| ynghylch sut y gallai ymchwiliad wella'r sefyllfa gartref, er enghraifft trwy raglenni adsefydlu sy'n canolbwyntio ar ymddygiad cyflawnwyr, yn annog dioddefwyr i gefnogi ymchwiliad o bosibl.<br>Nodwyd efallai nad oes digon o wybodaeth am y rhaglenni hyn yn cael ei rhannu â dioddefwyr cam-drin domestig yn ystod y cam 'cyswllt cyntaf â'r heddlu' cynnar hwn. | â rheolwyr rhaglen cyflawnwyr ym mis Chwefror i geisio gwella ymwybyddiaeth swyddogion.<br>Mae hyfforddiant ar 'faterion cam-drin domestig' hefyd wedi canolbwyntio ar y defnydd o iaith a bod swyddogion yn hysbysu dioddefwyr ar effeithiolrwydd sut y gallai proses cyfiawnder troseddol wella sefyllfa'r teulu. |
| Mewn achos 'cyn-cyhuddo' lle tynnodd y dioddefwr gefnogaeth yn ôl er mwyn peidio ag effeithio ar hawl ymweld y troseddwr honedig, amlygwyd ei bod yn datgan yn benodol yn natganiad y dioddefwr nad oedd wedi cael ei gorfodi i dynnu ei datganiad yn ôl.<br>Roedd yr aelod o'r Panel yn ansicr a oedd hyn yn rhywbeth y byddai'r swyddog a gymerodd ei datganiad wedi gofyn yn benodol i'r dioddefwr neu a oedd wedi ysgrifennu hyn o'i gwirfodd.<br>Os mai yr olaf o'r ddau reswm, yna, holodd yr aelod o'r Panel a fyddai hyn wedi cael ei ymchwilio ymhellach, oherwydd dywedodd y dioddefwr ei bod wedi gweld y troseddwr honedig ers y digwyddiad dan sylw. | Pan fo'r dioddefwr yn datgan ei fod yn dymuno tynnu cefnogaeth yn ôl o'r ymchwiliad, rydym yn dilyn arweiniad gan y Coleg Plismona sy'n nodi bod angen datganiad gan y dioddefwr a bod angen i hwn gynnwys bod y dioddefwr yn gwneud ei ddewis o'i wirfodd ei hun.<br><br>Meini prawf: *"p'un a yw'r dioddefwr wedi cael ei roi dan bwysau i dynnu'n ôl neu wedi dioddef bygythiadau neu godi ofn"* |

## 4.0 Gweithdy Aml-Asiantaeth

Cynrychiolodd staff SCHTh Y Panel Sicrhau Ansawdd yn y Gweithdy aml-asiantaeth, trwy rannu eu canfyddiadau, eu meddyliau, ac ymholiadau lle bo'n berthnasol i drafodaethau.

Mae canfyddiadau'r Gweithdy Aml-Asiantaeth wedi'u hymgorffori mewn Adroddiad a'i rhannu â'r rhai a oedd yn bresennol. Mae'r syniadau a nodwyd ynghylch sut y gall sefydliadau mynychwyr weithio i leihau athreuliad wedi'u hymgorffori mewn Dyfais Dracio Gweithredu a'i rhannu â'r rhai a oedd yn bresennol.

Bydd canfyddiadau'r Gweithdy hefyd yn cael eu hystyried ar lefel Cymru gyfan, gan fod Gweithdy tebyg wedi'i gydgysylltu, neu'n cael ei gydgysylltu, ar draws ardaloedd plismona Gwent, Gogledd Cymru a De Cymru.

Mae SCHTh yn ddiolchgar am barodrwydd aelodau'r Panel i gymryd rhan yn y sesiwn hap-samplu eithriadol hon, ac am eu brwdfrydedd dros y dasg dan sylw.